## ATODLEN 18

## RHYDDHAD ELUSENNAU

*Pryniant ar y cyd gan elusen gymwys a pherson arall: rhyddhad rhannol*

6 (1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys—
- (a) pan fo dau brynwr neu ragor mewn trafodiad tir,
- (b) pan fo'r prynwyr yn caffael testun y trafodiad fel tenantiaid ar y cyd, ac
- (c) pan fo o leiaf un o'r prynwyr yn elusen gymwys ac o leiaf un o'r prynwyr yn berson arall nad yw'n elusen gymwys.

(2) Caiff y dreth a godir mewn cysylltiad â'r trafodiad ei gostwng yn ôl swm y rhyddhad o dan is-baragraff (3) (ond gweler paragraff 7 (tynnu rhyddhad rhannol yn ôl)).

(3) Mae'r rhyddhad yn gyfwerth â'r gyfran berthnasol o'r dreth y byddid wedi ei chodi fel arall, gan anwybyddu paragraff 3, mewn cysylltiad â'r trafodiad.

(4) Yn achos elusen gymwys, "y gyfran berthnasol" yw'r isaf o C1 a C2, pan fo—

C1 y gyfran o destun y trafodiad a gaffaelir gan yr holl elusennau cymwys sy'n brynwyr o dan y trafodiad (gyda'i gilydd);

C2 y gyfran o'r gydnabyddiaeth drethadwy ar gyfer y trafodiad a roddir gan yr holl elusennau cymwys sy'n brynwyr o dan y trafodiad (gyda'i gilydd).